

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

Chwiliad testun rhydd

English

PDF

Argraffu

Cyfeirnod

Linell Amser

English

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

DAVIES, CERIDWEN LLOYD (1900 - 1983), cerddor a darlithydd

Enw: Ceridwen Lloyd Davies
Dyddiad geni: 1900
Dyddiad marw: 1983
Prïod: Gwilym Davies
Rhiant: Ceridwen Lloyd
Rhiant: Herbert Davies Lloyd
Rhyw: Benyw
Galwedigaeth: cerddor a darlithydd
Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth; Addysg
Awdur: Rhidian Griffiths

Ganwyd Ceridwen Lloyd ar 24 Medi 1900 yn Griffithstown, Pont-y-pŵl, yr hynaf o blant Herbert Davies Lloyd, gweithiwr ffowndri a anwyd yng Nglynebwy, a'i wraig Ceridwen, a anwyd ym Mlaenafon. Cafodd ei haddysg yn Ysgol y Merched, Pont-y-pŵl, ac yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd, lle'r enillodd radd Mus. Bac. yn 1921, yr ail fenyw yn unig i gael y radd honno ym Mhrifysgol Cymru (y gyntaf oedd y gyfansoddwraig **Morfydd Llwyn Owen**). Bu hefyd yn astudio am gyfnod yn yr Academi Gerdd Frenhinol yn Llundain cyn cael ei phenodi yn 24 oed yn Gyfarwyddwr Astudiaethau Cerddorol y Coleg Normal ym Mangor, swydd y bu ynddi tan 1930; erbyn 1932 yr oedd yn ddarlithydd mewn coleg hyfforddi athrawon arall ym Mangor, sef Coleg y Santes Fair.

Ar 9 Gorffennaf 1929 priododd â'r Parchedig Gwilym Davies (1887-1980), offeiriad yn yr Eglwys yng Nghymru a chanon yn Eglwys Gadeiriol Bangor ar y pryd, a hanai o ardal Llandysul, a chawsant un mab. Cefnogodd ei gŵr yng ngwaith yr eglwys, yn arbennig ei agweddau cerddorol, a bu darllediadau'r BBC yn rhan bwysig o'i bywyd. Urddwyd y ddau ohonynt yn aelodau o'r Orsedd.

Yn ystod 1932, ar gais y golygydd, **J. Lloyd Williams**, cyfrannodd gyfres o ddeuddeg erthygl i gylchgrawn dwyieithog *Y Cerddor* ar bwnc 'Music Teaching in Schools'. Cafwyd ymateb ffafriol i'r rhain, ac yn 1933 fe'i cyhoeddwyd ar ffurf llyfr, *The Teaching of Music in Schools: a consideration of matter and method from kindergarten to senior classes*. Ysgrifennwyd Rhagair iddo gan **Syr Walford Davies**, Cyfarwyddwr Cyngor Cerdd Cenedlaethol Cymru, ac fe'i cyflwynwyd i'w hathro yng Nghaerdydd, **David Evans**, 'for all he has taught me'.

Rhwng 1959 a'i hymddeoliad yn 1966 bu'n Bennaeth yr Adran Gerdd yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin. Ymddeolodd hi a'i gŵr i Landudno lle'r oedd yn un o sylfaenwyr Clwb Cerdd Llandudno (Cymdeithas Gerddorol Llandudno yn ddiweddarach), a byddai'n gohebu'n gyson ar faterion cerddorol i'r *North Wales Weekly News* a'r *Liverpool Daily Post*.

Beirniadau'n gyson mewn eisteddfodau, gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol, ac ar hyd ei gyrfa byddai'n rhannu ei chariad at gerddoriaeth gyda selogion o bob oed, gan gynnwys aelodau dosbarthiadau Cymdeithas Addysg y Gweithwyr ac aelodau cyrsiau preswyl.

Bu Ceridwen Lloyd Davies farw ar 30 Hydref 1983 a chynhaliwyd ei hangladd yn Eglwys y Drindod, Llandudno ar 4 Tachwedd. Fe'i claddwyd gyda'i gŵr yn eglwys St Cross, Llanllechid.

Awdur

Rhidian Griffiths

Ffynonellau

Cerddoriaeth Cymru, 7/6, Gwanwyn 1984, t. 101
Gwybodaeth gan ei mab, Dr D. Ff. Lloyd Davies

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q114261259

Dyddiad cyhoeddi: 2022-09-26

Hawlfraint Erthygl: <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/>

PDF

Argraffu

Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Ychwanegu

Arddull APA

Griffiths, R., (2022). DAVIES, CERIDWEN LLOYD (1900 - 1983), cerddor a darlithydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c14-DAVI-LLO-1900>

Cyfeirnod

Preifatrwydd a Chwcis

Hawlfraint

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION

